
# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 257 Pris £1 Mis Medi 2023



**Gardd Canolfan y Glowyr**

## Colofn Siaradwyr Newydd

Cyfarchion i chi i gyd! Daeth mis Medi unwaith eto a'r plant yn mynd nôl i'r ysgol neu yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf. Mae plant yn llawn cywreinrwydd am y byd o'u cwmpas. Oeddech chi'n gofyn llawer o gwestiynau pan oeddech chi'n blentyn? Oedd llawer o bethau doeddech chi ddim yn deall ac eisiau cael ateb? Dyma thema cerdd y mis yma ble mae T Llew Jones yn gweld y byd trwy lygad plentyn ac yn holi a holi.

### Pam?

Pam y mae'r lleuad weithiau'n llawn,
Ac weithiau fel cryman tenau iawn?

Pam y mae'r wylan sy'n hedfan fry
Mor rhyfeddol o wyn - a'r frân mor ddu?

Pam mae sgyfarnog y rhos mor chwim,
A'r crwban bron methu â symud dim?

Pam mae dŵr y nant mor glir â'r gwydr,
A dŵr yr afon fawr mor fudr?

Pam y mae dail y gwanwyn mor wyrdd
A dail yr hydref yn frown hyd y ffyrdd?

A pham y mae cynffon gan ambell gi,
A dim gan un arall, dwedwch i mi?

Mae 'na gymaint o bethau od yn y byd
Maen nhw'n gwneud i ni holi - holi o hyd.

Ond dyma'r cwestiwn olaf yn awr,
Ac yn wir i chi - mae e'n gwestiwn mawr.........

Pam rwyf fi weithiau yn dda a charedig,
Ac weithiau'n ddrwg ac yn felltigedig?

*cywreinrwydd : curiosity* *holi : to question* *lleuad : moon* *cryman : sickle* *gwylan : seagull*
*fry: above* *brân : crow* *sgyfarnog : hare* *chwim : fast* *crwban : tortoise* *nant : stream*
*gwydr:glass* *budr : dirty* *cynffon : tail* *melltigedig : wicked, detestable*

***Ann Lewis***

**Llongyfarchiadau i arddwyr Canolfan y Glowyr am ennill lle yn y llyfryn 'Gerddi Agored'.**


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Gwobr Ffotograffiaeth

Ein pleser yw cyflwyno tri llun a enillodd wobr i Gwyneth Davies, Maesycwmer, mewn cystadleuaeth a osodir yn flynyddol gan Ferched y Wawr yn Sioe Llanelwedd.

Y thema eleni yng nghystadleuaeth Radi Tomos oedd 'Dinas'.  Roedd rhaid i'r 3 llun fod yn ddu a gwyn ac yn ffitio mewn i ffrâm A3.  Tynnodd Gwyneth luniau o wahanol ardaloedd o ddinas Caerdydd - yr hen a'r newydd.

Cafodd ganmoliaeth fawr am y llun o Ganolfan y Mileniwm yn y Bae. Enillodd y  drydedd wobr a lluniau o Efrog newydd a Chicago ddaeth yn 1af ac 2il.

Llongyfarchiadau, Gwyneth.








# Cofio Siân



Un o ferched Ynys Môn oedd Sian Puw John, ond roedd ei gwreiddiau yn ardaloedd Llanfairfechan ac Uwchaled. Dathlodd ei gwreiddiau yn y gogledd, ond ar ôl priodi ymgartrefodd yng Nghwm Rhymni ac roedd wrth ei bodd ynghanol y gymuned hon. Roedd ei hunaniaeth Gymraeg yn bwysig iddi, ac roedd bod yn athrawes yn llawer mwy na swydd; roedd yn genhadaeth, ac roedd yn awyddus i feithrin pobl a fyddai'n dathlu'r Gymraeg a byw y diwylliant hwnnw.

Graddiodd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ac ar ôl cymhwyso i fod yn athrawes, bu'n dysgu Cymraeg yn Ysgol Maes Garmon yr Wyddgrug. Roedd wedi dyweddïo gyda Denzil Ieuan John un o fechgyn Sir Benfro, a oedd wedi derbyn gwahoddiad Eglwys Tonyfelin, Caerffili i fod yn weinidog yno. Wrth symud lawr i Gaerffili, ffarweliodd gyda chyfeillion yr Wyddgrug, a dechrau swydd fel cyd-bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Rhymni, yn Nwyrain Caerdydd. Ffarweliodd â'r ysgol honno ar ôl geni ei phlant Luned ac Aled, a chyflenwodd mewn amrywiol ysgolion uwchradd a chynradd cyn derbyn swydd barhaol yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Cyn-ddisgybl iddi ym Maes Garmon oedd Anne Evans, ac a ddaeth yn un o ffrindiau mynwesol Siân yn Ysgol Gymraeg Caerffili, gyda'r ddwy yn cydweithio'n agos gyda'r ochr gerddorol yno. Ymhlith y llu cyfarchion a dderbyniodd y teulu yn dilyn marwolaeth Sian, roedd llawer o gyd-athrawon a nifer dda o gyn-ddisgyblion yn cydnabod eu dyled iddi am ei dawn i wrando a chefnogi, i fod yn sensitif i anghenion eraill, ac i addysgu'n ddyfeisgar rychwant eang o agweddau'r cwricwlwm i'r disgyblion.

Tu allan i fyd addysg, bu'n gefn i'w phriod yn eglwysi Tonyfelin a Bethel yng Nghaerffili, a'r Tabernacl yng Nghaerdydd. Mwynheai gwmnïa gyda phawb, ac ystyrid hi yn ffrind i bawb. Bu'n athrawes Ysgol Sul yn Nhonyfelin a'r Tabernacl, ac roedd wrth ei bodd yn mynychu'r oedfaon a chymdeithasu yn eu mysg. Oddi allan i'r bwrlwm eglwysig, roedd yn ei helfen yn teithio gyda'r teulu.

Buont ledled Ewrop a theithio cyn belled a Sydney yn Awstralia. Byddai yn falch o fynd i Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol, a meddai'r ddawn i drefnu blodau a nifer o grefftau llaw. Roedd garddio yn bleser iddi hefyd, heb anghofio coginio, darllen a gwrando ar gerddoriaeth glasurol. Ym mhob agwedd o'i byw, roedd meithrin cyfeillgarwch, hen a newydd, yn bwysig a mwynhaodd gwmnïaeth Côr Rhianedd Cwm Rhymni, Merched y Wawr, Caerffili, a Boreau Coffi Caffi'r Ceirw. O bob cwmnïaeth, roedd ei theulu yn bopeth iddi. Cydymdeimlwn gyda'i phriod, ei phlant, Luned a Dyfrig, Aled a Lynwen, ac wrth gwrs ei hwyrion, Hawys, Gwydion, Gethin a Megan. Gadawodd y byd, gan adael ei hôl ar fywydau pawb a ddaeth i gyffyrddiad â hi, ac erys ei dylanwad ar gynifer o bobl.

**Siân**

Un brodwaith oedd y daith a dau'n rhannu
llunio'r un patrymau;
er y golled, yr edau
a'i rhin fydd ynddo'n parhau.

*John Lloyd*

**I Denzil er cof am Sian**

Ei rodd Ef oedd uno'r ddau, a'i fendith
roes fwynder i'w dyddiau,
a'i nawdd fu'n eu llawenhau,
yn euro eu hamserau.

Mwy, eu gwŷl yw storm galar, a'u dydd llon
yw dydd lleddf eu talar;
ond y cof am gariad câr
yw gem yfory i gymar.

*Eirian Dafydd*

**Gwasanaeth Ysgol**

Mae neuadd yr ysgol
yn gwagio.

Mae cadair wag
yn rhes cadeiriau
yr athrawon.

Mae dosbarth chwech
yn aflonyddu
dydy eu hathrawes
ddim ar gael
i'w harwain
i gyfieithu adnodau
yn fodelaidd
o'r Pasg gwahanol
yng ngardd Gethsemane.

Mae'r glaw yn oedi
i bendroni
yng nghylch beth sydd
yn digwydd.

*Dafydd Islwyn*

# Cofio Eleri



Â thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Eleri  a hynny bron union chwe mis wedi i ni ffarwelio â'i gŵr Clive yn gynharach eleni. Bu'r newyddion yn sioc ac yn siom i nifer ohonom oedd wedi dwlu gweld Eleri, ers claddu Clive, yn ailgydio yng ngweithgareddau nifer o achosion teilwng  yn yr ardal. Bu'n amhosib iddi gyfrannu i'r digwyddiadau hyn tra oedd yn rhoi'r fath ofal dwys i Clive yn ei salwch. Profodd groeso mawr pan aeth ati i  ailgydio yn yr awenau.

Cafodd Eleri ei geni yn Cross Inn, Llanon, a thyfu i fyny yn y Geredigion wledig yn aelod o deulu diwylliedig cenedlaethol. Roedd ei mam yn chwaer i ddau brifardd enwog, sef Geraint Bowen a enillodd Gadair Aberpennar yn 1946 ac a fu yn Arolygwr Ei Mawrhydi ac yn Archdderwydd Cymru rhwng 1978-1980. Roedd Euros Bowen yn offeiriad a enillodd Goron y Genedlaethol ym Mhen-y-bont yn 1948 ac yng Nghaerffili yn 1950.

Wedi mynychu Ysgol Cross, lle roedd ei thad yn Brifathro, ac yna Ysgol Gyfun Aberaeron, enillodd Eleri le yng Ngholeg Aberystwyth, Prifysgol Cymru, i astudio am radd yn y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn cyfarfu â Clive oedd yn enedigol o Southampton ond wedi symud i Lundain tua 1954. Roedd ef wedi dod i'r  Coleg ger y Lli i astudio Gwleidyddiaeth Rhyngwladol a Daeaeryddiaeth Dynol. Roedden nhw yno ar adeg gyffrous lle buont yn rhan o adwaith y genedl i ddarlith 'Tynged yr Iaith' Saunders Lewis, 1962. Buont yn rhan o'r ymgyrchu dros yr iaith, er enghraifft protest Pont Trefechan.

Wedi graddio, dilynodd Eleri gwrs hyfforddi i fod yn athrawes ac wedi priodi, setlodd y pâr ifanc yng Nghaerdydd. Ond yno profwyd anhawster wrth geisio cael lle i'w plant yn un o ysgolion Cymraeg y ddinas a'r ateb oedd symud dros y mynydd i Gaerffili yn 1973. Yno, cafodd eu plant Aled a Catrin eu haddysg yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Wedyn penderfynwyd symud o Mornington Meadows i Bentwyn Isaf. Yno, daethant yn rhan o gymdogaeth glos a Chymreig.

Bu Eleri yn un o swyddogion maes Mudiad Ysgolion Meithrin yn y cwm cyn treulio cyfnod yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod lle bu ei harbenigedd mewn Cerdd Dant yn elfen amlwg. Ond, yn 1984 aeth ati ar gais yr awdurdodau, i sefydlu Uned Gymraeg yn ysgol bentref Tir y Berth. Wedi gadael Tir y Berth,  aeth yn ddarlithydd yng ngholeg hyfforddi athrawon yng Nghyncoed, Caerdydd. Yna, wedi ymddeol o'r Coleg, daeth yn arolygydd a bu'n ymweld ag Ysgolion Cymraeg a Chylchoedd Meithrin yr ardal.

Bu'n weithgar gyda nifer o fudiadau oedd yn hyrwyddo'r iaith, megis Eisteddfod y Cymoedd, a gwnaeth lawer o waith ar gyfer ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Llancaeach yn 2015. Yn fwyaf arbennig aeth hi ac eraill ati i sicrhau bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r Ŵyl.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w 'phlant'. Mae Aled a'i deulu wedi ymgartrefu bellach yn yr ardal lle magwyd ei fam ac yntau'n swyddog gyda'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, tra bod Catrin yn bennaeth ar adran gerddoriaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg.

### Cofio Eleri
**(nith i ddau Brifardd)**

Dydy Awst
ddim yn Awst
ym Mhentwyn Isaf
eleni.

Yno,
mae'r gynghanedd
yn athrist
ac yn styfnig
ei sillafau
gan i eisteddfodwraig
fynd
ffordd yr holl ddaear.

O'i myned
gadawyd
blodeugerdd
barddoniaeth
y teulu
ar y silff.

*Dafydd Islwyn*

# Ymweld â'r BBC

Am daith dywys ddiddorol! Teithiodd pobl ar y trên i Orsaf Ganolog Caerdydd a mwynhau coffi cyn cwrdd â Stephen a Bethany yn adeilad ysblennydd y BBC.



Cawsom ymweld â phob math o lefydd - stiwdio'r newyddion sy mor gyfarwydd i ni gyda golygfa o Fae Caerdydd, stiwdio Radio Cymru, Theatr Dylan Thomas lle mae dramâu yn cael eu recordio a drws nesa mae'r stafell 'farw' lle mae actorion yn recordio geiriau cyn ychwanegu pob math o effeithiau sŵn mewn lle arall. Aethom i stiwdio lle roedd y Tour de France yn fyw ar 13 sgrîn. Roedd sylwebydd yn fyw ynghanol y bwrlwm ond roedd y lluniau yn dod o stiwdio S4C**.** Gwelon ni'r ferch yn aros am gyfle addas i wasgu botwm i ddechrau'r hysbysebion. Mae hi hefyd yn trwsio unrhywbeth sy'n torri!



Wrth gerdded y coridorau gwelon ni bobl wrth eu cyfrifiaduron a phobl yn rhuthro o gwmpas. Gwelom wynebau cyfarwydd yn cynnwys Hywel Gwynfryn a dyna gyfle am lun. Un peth o ddiddordeb i drefnydd ein trip oedd y silffoedd yn llawn o gyfrolau rhwymedig o gopiau'r Radio Times. Pan yn gweithio yn yr adran gerdd yn BBC Llandâf, byddai Gaynor yn cyfrannu at y cyfrolau.

Does dim syndod bod y teithiau tywys o gwmpas y ganolfan ddiweddara a mwya blaenllaw wedi ennill gwobr aur am ansawdd y profiad o fynd tu ôl i'r llen.



Yn y stiwdio newyddion gwelon ni dechnoleg flaengar realiti estynedig a rhith -realiti. Cawsom rybudd i beidio cyffwrdd â'r camerâu robotig gydag autociw. Y person nesa i ddod i siarad â ni oedd merch y tywydd, Alex Humphreys. Dydy hi byth yn defnyddio autociw achos dydy hi byth yn gwybod faint o amser fydd gyda hi. Mae popeth yn dibynnu ar hyd eitemau eraill yn y bwletin. Nid yn unig ad lib yw'r sgil ond hefyd siarad wrth wrando ar lais y cyfarwyddwr yn ei chlust.

Cawsom ymweliad bythgofiadwy diolch i'n tywyswyr cartrefol, gwybodus a'r bobl a gwrddon ni y tu ôl i'r llen.

*Jenni Jones-Annetts*

---

**CLWB CERDD**
**CWM RHYMNI**
**Rhif Elusen: 1089092**

## Dydd Sadwrn, 16eg o Fedi

## 2:30

### Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach

## *Sarah Moule (Soprano) a Simon Wallace (Piano)*

## MERCHED y WAWR

**Cwm Rhymni**

Mary Jones yn adrodd hanes ei murlun sy'n dangos stori chwedlau Cwm Rhymni.
Comisiynwyd adeg Eisteddfod yr Urdd 2015.

Dydd Mercher, 20 Medi 2023

19:00

**Canolfan y Glowyr, Caerffili**

**<u>Yn dilyn y cyflwyniad, cynhaliwn Gyfarfod Blynyddol y Gangen</u>**

## *MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI*

### *Rhaglen 2023-24*

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher, 18 Hydref<br>19:00 | Nerys Howell a sefydlodd Cwmni Ymgynghoriaeth Bwyd Howell, sy'n marchnata a hyrwyddo bwyd Cymru. Noson o goginio. Lleoliad I'w gadarnhau. |
| Dydd Mercher, 15 Tachwedd<br>19:00 | Mati Roberts, Stiwdio Matico, sy'n creu a gwerthu nwyddau gwaith llaw godi arian er budd ysgol yn Ghana. Canolfan y Glowyr, Caerffili |
| Dydd Mercher, 6 Rhagfyr<br>11:00 | Cwmnïaeth a chlonc dros goffi a chacen yn Llancaiach Fawr. |
| Dydd Mercher, 17 Ionawr<br>19:00 | Siân Rhiannon yn siarad am ddeiseb heddwch menywod Cymru i America, a hanes Mary Ellis, un o'r arweinwyr. Canolfan y Glowyr, Caerffili |
| Dydd Mercher, 21 Chwefror<br>19:00 | Menna Evans sy'n creu gwaith llaw unigryw a gweithio gyda thecstilau cynaliadwy. Canolfan y Glowyr, Caerffili |
| Dydd Mercher, 20 Mawrth<br>19:00 | Delyth Jewell, Aelod o'r Senedd. Zoom. |
| Dydd Mercher, 17 Ebrill<br>19:00 | Marc Edwards, Elusen Oasis. Cyflwyniad am waith yr elusen a chasglu teclynnau ffonau symudol a gwefryddion. Canolfan y Glowyr, Caerffili |
| Dydd Mercher, 15 Mai<br>11:00 | Trip cwch o Erddi Sophia i'r Bae a nôl. Cinio yn y Bae<br>Cwrdd yng ngerddi Sophia. |
| Dydd Mercher, 19 Mehefin<br>11:00 | Ymweliad ag un o Erddi'r NGS. |
| Dydd Mercher, 17 Gorffennaf<br>11:00 | Bowlio Deg, Nantgarw. Cwrdd yn Nantgarw |

**Croeso cynnes ar bob adeg i aelodau hen a newydd a ffrindiau'r gangen.**

**Am fwy o wybodaaeth cysylltwch â Gaynor ar gaynorw555@gmail.com**

# Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024

## Argraffiadau Siaradwraig Newydd

Saesnes wyf i, heb gysylltiadau teuluol â Chymru o gwbl, ond yn fy arddegau treuliais i bedair blynedd hapus dros ben ym Merthyr Tudful yn ymdrochi fy hunan yn niwylliant Cymru, yn enwedig treftadaeth y Cymoedd cyn i fi fynd i brifysgol yn Llundain. Symudodd fy mywyd ymlaen heb gyfle i ddychwelyd i Gymru. Fodd bynnag, ers hynny mae'r Cymoedd yn aros yn agos at fy nghalon i. Naw mlynedd yn ôl dechreuais i ddilyn fy mreuddwyd gan ddysgu'r iaith ac ymweld â Chymru mor aml ag y byddai modd. Trwy fy mhartner Cynllun Siarad, Dr Elin Jones, a'ch papur bro "Cwm*ni*" ardderchog rwyf wedi ehangu fy nghynefin mabwysiedig. Wrth gwrs, rwyf wedi ymweld ag Eisteddfodau Cenedlaethol pan gynhaliwyd nhw yn y De. Felly, roeddwn i wrth fy modd pan glywais i y byddai Gŵyl 2024 yn Rhondda Cynon Taf, rhan o'm hen gynefin, o'r diwedd!



Ond nid oedd angen aros tan 2024. Roeddwn i wedi darllen am seremoni o'r enw 'Y Cyhoeddi' oedd i'w chynnal yn Aberdâr ym Mehefin 2023. Beth yw'r Cyhoeddi? Ar y we, mi wnes i ddarganfod taw digwyddiad Gorsedd Cymru yw hi, sy'n nodi bod yr eisteddfod ar ei ffordd i ardal o leiaf blwyddyn a diwrnod cyn cynnal yr Ŵyl.

Nid ydy eisteddfodau yn digwydd o fewn dim. Ers misoedd mae pwyllgorau o dan arweiniad Helen Prosser yn llafurio yn y cefndir i godi hwyl yn y gymuned ac yn codi arian hefyd (£400,000 yw targed y Sir). Prif dasgau cynnar y Pwyllgor Gwaith oedd gosod y cystadlaethau ar gyfer Eisteddfod 2024 a threfnu'r seremoni gyhoeddus gyntaf, sef "Y Cyhoeddi", ble byddai copi o destunau'r cystadlaethau yn cael ei gyflwyno i Archdderwydd yr Orsedd, Myrddin ap Dafydd.

Felly, sut oedd fy niwrnod? Cychwynnais i o Swydd Hertford am Aberdâr yn oriau mân bore'r 24ain o Fehefin ac ymhen tair awr cyrhaeddais i ganol y dre ble ges i goffi a bara brith yng nghaffi Bradleys yn hen neuadd y dre. Roeddwn i'n ymlacio mewn cadair esmwyth pan gyrhaeddodd dyn yr oedd ei wyneb yn rhyfedd o gyfarwydd. Cyfarchodd e westeion eraill yn y Gymraeg ac yn hwyrach sylweddolais i taw un o fy hoff awduron oedd e.




Roeddwn i wedi clywed bod hanes cyfoethog gydag Aberdâr, felly dechreuais i ddilyn llwybr treftadaeth sy ar gael ar y we, dim ond yn Saesneg yn anffodus. Ar ôl ymweld â'r amgueddfa ardderchog yn y cyn-waith haearn dychwelais i i hen eglwys Sant Ioan Fedyddiwr ble des i o hyd i daith gerdded yn Gymraeg yng ngofal David Leslie Davies. Byd bach iawn yw'r byd Dysgu Cymraeg. Ymhen munudau roeddwn i'n cwrdd ar hap â chyd-fyfyrwyr o fy nghwrs Mynediad yn Llundain, ffrindiau o gyfarfodydd Zoom a fy mhartner Cynllun Siarad.

Rwyf i'n dwlu ar archaeoleg ddiwydiannol a hanes crefyddol, felly mwynheais ddysgu am dwf a dylanwad diwydiant argraffu Aberdâr yn y 19eg ganrif, yr hen eglwys a chapeli a gwreiddiau enwau strydoedd yn ardal "Maes y Dre". Ym 1861, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol Fodern gyntaf yng Nghymru ar ran o gomin Hirwaun a ddaeth yn Barc Aberdâr, ble saif Cylch yr Orsedd o hyd.



Daeth ein hymweliad â neuadd y farchnad, lle enfawr a bywiog â ni yn ôl i'r 21ain ganrif, ond hyd yn oed yma, roedd hanes. Defnyddiwyd yr adeilad fel "pafiliwn" yn 1861 o achos ar drothwy'r Ŵyl, difethwyd gan dymestl yr holl bebyll a baratowyd yn y parc. Wrth i ni grwydro o gwmpas y dre daethon ni o hyd i gofebion i sawl person pwysig lleol, fel Keir Hardie a Griffith Rhys Jones (Caradog). Mewn gwirionedd, lle bach gyda hanes mawr yw Aberdâr.

Ar ôl cinio yng nghaffi eglwys Sant Elfan, sy'n werth ymweld â hi, i weld ffenestri'r Seintiau Celtaidd, cymeron ni ran yng ngorymdaith Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Roedd yr haul yn disgleirio, y dref yn edrych yn wych ac roedd ei chroeso i'r Eisteddfod yn gwbl amlwg ar wyneb pob un o'r cannoedd a fu'n cerdded drwy'r dref a'r llu o drigolion lleol a fu'n leinio'r strydoedd i'w gwylio. Cynhaliwyd y seremoni yn Stadiwm Ron Jones a diolch i weithred gyflym Elin ac aelodau Merched y Wawr eraill y cerddais i gyda nhw, cawson ni seddau yng nghysgod yr eisteddfa yn lle yn yr haul ar y maes.



Mae elfennau'r seremoni yn dilyn patrwm traddodiadol Seremonïau'r Orsedd. Seiniwyd ffanffer bedair gwaith i agor y seremoni, canwyd Gweddi'r Orsedd, digwyddodd defod y Cleddyf Heddwch a chyhoeddodd yr Archdderwydd fod yr Orsedd yn agored.

Yn ei anerchiad amddiffynnodd Yr Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd, reol iaith Gymraeg yr Eisteddfod ond hefyd galwodd y Cymoedd yn "dir gobaith yr iaith Gymraeg" gyda'u nifer uchel o ysgolion Cymraeg. Ond rhybuddiodd e nad oedd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, er ei dysgu yn yr ysgol, gan 80% o blant Cymru ac roedd angen i hynny newid.




Ef oedd y Bardd Plant cyntaf a siaradodd am ei waith yn annog a chodi diddordeb disgyblion di-Gymraeg. Cyflwynwyd y Corn Hirlas i'r Archdderwydd fel symbol bod y fro yn croesawu'r Orsedd a'r Eisteddfod. Yna daeth artistiaid lleol i ganu, adrodd barddoniaeth a chyflwyno cerdd dant, gyda geiriau difyr iawn gan Aneurin Karadog am afonydd a threfi'r ardal. Nesaf cyflwynwyd y copi cyntaf o Restr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Rhondda Cynon Taf 2024 i'r Archdderwydd gan Helen Prosser, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Wedyn edrychon ni ar Gyflwyno'r Flodeuged a Chynnyrch y Meysydd â'r ddawns flodau bert, cyn darllen Sgrôl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Cyn i'r Orsedd gau gyda defod y Cleddyf Heddwch a chanu 'Mae Hen Wlad fy Nhadau' daeth cyhoeddiad poblogaidd iawn, sef, taw Mererid Hopwood fyddai'r Archdderwydd nesaf! Safodd pawb i'w chymeradwyo hi.

Am ddiwrnod cofiadwy! Yn bendant mae'r Cyhoeddi wedi codi proffil y Gymraeg yn yr ardal ac i fi roedd yn werth y daith o 360 milltir mewn un diwrnod. Mae hi'n argoeli'n arbennig o dda ar gyfer y flwyddyn nesaf! Llongyfarchiadau i Helen Prosser a'i thîm.

Nawr edrychaf i ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol 2024. Gobeithio y gwelaf i chi yno.

***Elizabeth Liney***

# Newyddion Ysgol y Lawnt




## Gwaith! Gwaith! Plant yr Oes Fictoria

Wedi eu hysbrydoli gan nofel Berlie Doherty ‘Street Child’ a phrofiadau’r cymeriad Jim Jarvis, ymchwiliodd disgyblion blwyddyn 6 yn ddyfnach i sut roedd bywyd i blant yn Oes Victoria trwy brofiadau creadigol a llenyddol, chwarae rôl ac ymchwil hanesyddol i ddata Wyrcws Merthyr Tudful o gyfrifiad 1881.

**Enillodd y disgyblion wobr Sefydliad Hodge o £200 am eu gwaith arbennig.**








## Dathlu Ein Baner Platinwm Ysgolion Eco

## Ymgyrch i leihau defnydd o blastig untro yn ein hysgol ni



Mae Eco-Bwyllgor Ysgol y Lawnt yn cwblhau Adolygiad Amgylcheddol blynyddol o'r ysgol. Mae'r adolygiad yn cael ei gwblhau fel pwyllgor, ac mae'n ffordd wych o nodi mentrau amgylcheddol sydd eisoes yn digwydd yn yr ysgol, a meysydd i'w gwella.

O ganlyniad teimlodd disgyblion yr ysgol ein bod yn gorddefnyddio llawer o bethau plastig bob dydd.

Y rhai mwyaf amlwg oedd peniau (Berols a pheniau ffelt), ffyn glud a bagiau ffrwyth. Yn ddiweddar, mae’r llaethdy wedi ail-ddechrau defnyddio poteli plastig yn lle cartonau ar gyfer ein llaeth am ein bod ni’n defnyddio dros 150,000 bob blwyddyn. Felly, gwnaethom ffocysu ar sicrhau bod y plastig defnydd untro mae’r plant yn ei ddefnyddio yn cael ei ail-gylchu yn lle mynd at y safle tir-lenwad. Yn ogystal â hyn gwnaeth y Eco-Pwyllgor wasanaeth o flaen yr ysgol gyfan i esbonio pam mae hyn mor bwysig.

# Dathlu ymweliad gan Estyn

Bu staff a llywodraethwyr Ysgol y Lawnt yn dathlu arolwg llwyddiannus iawn gan Estyn ym mis Hydref 2022.  Treuliodd tîm o arolygwyr dri diwrnod a hanner yn yr ysgol a dyma beth a ddywedwyd:

"Mae Ysgol Y Lawnt yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol."

"Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus."

"Mae ethos yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef hyrwyddo Cymreictod, cwrteisi a chyfrifoldeb."

"**Mae'r Caffi Clic a Chlonc** wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i'r holl ddisgyblion yn eu tro. Maent yn datblygu eu medrau a chymhwyso medrau bywyd go iawn trwy weithio gydag aelodau'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys rhieni'r ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn llunio bwydlenni, coginio bwyd i'w weini, a delio ag arian wrth werthu'r cynnyrch ac yna dadansoddi'r elw."






Gwaith ffeltio Bl 4 a ddaeth yn 1af yn Eisteddfod yr Urdd

## Adeilad Newydd i'r Lawnt

Mae cynigion wedi cael eu cyhoeddi i greu adeilad ysgol newydd modern, cynaliadwy sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned ehangach. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am hyn nes ymlaen yn y flwyddyn.



Gŵyl ddathlu crefyddau'r byd.

# Uchaf neu Isaf

Ym Mhontllanfraith cyn Dr Beeching roedd arfer bod dwy orsaf reilffordd: Uchaf a Isaf. Ac yn byw ger yr orsaf isaf roedd gŵr a gwraig, Gareth a Siân Thomas, a oedd wedi etifeddu swm eitha mawr o arian. Eisteddon nhw i lawr i feddwl beth i'w wneud i fwynhau'r arian.

“Beth am fynd rywle neis am wyliau?” dywedodd Gareth, “fel mordaith neu rywbeth fel hynny?” “Na,” meddai ei wraig, “dw i ddim yn ffansio hynny o gwbl.” “Wel, s'dim hast”, atebodd Gareth, “byddwn ni’n meddwl amdano am sbel.”

Cwpl o ddiwrnodau ar ôl hynny roedd Siân yng Nghoed Duon yn siopa gyda'i ffrind a phenderfynodd fynd i mewn i'r asiantaeth deithio. Cododd hi nifer o bamffledi ar wyliau tramor, ac yn y fan a’r lle roedd hi'n gwybod yn union lle roedd hi’n moyn mynd, oherwydd ymhlith y pamffledi roedd un yn dangos Japan.

Dyna le roedd eu mab Dafydd â'i wraig yn byw yn Chiba ger Tokyo. Symudon nhw i fyw yno dros saith mlynedd yn ôl, felly nid oeddent wedi gweld eu mab na'u merch yng nghyfraith ers dros saith mlynedd,ac hefyd nawr roedd 'da nhw ddau o wyrion, un bachgen chwech oed o’r enw Rhys a merch pump oed o’r enw June nad oeddent erioed wedi eu gweld.

Pan gyrraeddodd adref, roedd hi mor gyffrous ni allai aros i ddweud wrth ei gŵr. “Gareth, dwi'n gwybod lle i fynd am hoe fach, beth am i ni fynd i ymweld â Dafydd yn Japan?” Roedd ei gŵr yn dawel am funud, yn ddwfn yn ei feddyliau, ac yna dywedodd, “Ie, grêt ! Syniad da, gad i ni wneud hynny.”

Felly, nesa roedd rhaid iddynt ysgrifennu at eu mab a gofyn beth oedd e’n ei feddwl am y syniad. Arhoson nhw'n amyneddgar am ei ateb, ac o'r diwedd fe gyrhaeddodd. Dywedodd Dafydd fod y teulu i gyd wrth eu bodd gyda'r syniad ohonyn nhw'n dod ar ymweliad, “Dyw’r plant ddim yn gallu aros i'ch gweld chi. Ac bydd rhaid i chi aros 'da ni am o leiaf mis.”

Y cam nesaf oedd trefnu'r daith i Japan. “Wel,” dywedodd Gareth, “dw i'n gwybod bydd rhaid i ni hedfan o Heathrow, a bydd rhaid i ni gael pasportau. Af i ofyn i John sy'n gweithio yn swyddfa docynnau’r orsaf isaf, am ychydig o gyngor, dw i'n cwrdd â fe heno yn y dafarn am beint, gofynnaf iddo yno.”

Felly, tua 8 o’r gloch y noson honno aeth Gareth i'r dafarn am beint a sgwrs, gwelodd fod John yno'n barod yn eistedd wrth eu bwrdd arferol, doedd neb arall wedi troi lan eto, felly, meddyliodd Gareth dyma'r amser gorau i ofyn iddo am gyngor am y daith i Japan. Ar ôl dod o'r bar gyda'i beint, eisteddodd i lawr gyferbyn â John, a dywedodd, "John, dw i moyn pigo dy ymenydd, dy’n ni'n mynd i Japan i ymweld â’n mab a beth dw i'n moyn gwybod yw, ydyn ni'n gallu codi tocyn yn syth drwodd o'r orsaf trên i Japan?” Dechreuodd John chwerthin! “Paid bod mor dwp Gareth, ti ddim yn gallu gwneud pethau fel hynny. Bydd rhaid i ti fwcio hediad o Heathrow i Japan yn gyntaf. Bydd rhaid i chi fynd ar y trên i Gaerdydd, ac yna ar y trên i Baddington. Yr hyn dw i'n awgrymu ydy, teithio lan i Lundain y diwrnod cyn i chi hedfan ac aros mewn gwesty dros nos, fel’na byddwch chi yn Llundain yn barod.”

Dywedodd Gareth wrth ei wraig beth awgrymodd John. “Wel,” meddai hi, “ ’dyn ni'n mynd i Gaerdydd ddydd Sadwrn am bryd o fwyd ac i weld y ddrama ‘Brigadoon’ yn y Theatr Newydd, felly ’dyn ni'n gallu gofyn yn yr orsaf drên yno, i fod yn sicr.” Felly, dyna beth wnaethon nhw, ond, dywedodd y dyn yng Nghaerdydd yn union yr un peth â John, “D’ych chi ddim yn gallu archebu’n syth drwodd i Japan, mae hynny'n amhosib.” Ond ta beth, cawsant ddiwrnod neis yng Nghaerdydd.

Fe wnaethon nhw drefnu i hedfan i Japan a rhoi gwybod i'w mab pa hediad y byddent arno. Pan gyrhaeddon nhw faes awyr Narita roedd eu mab a'i deulu i gyd yno i gwrdd â nhw. Y peth nesa roedd rhaid iddynt ddal y trên i Chiba.

Cawson nhw amser ffantastig gyda’u teulu, gan fynd o gwmpas ym mhob man yn gweld y golygfeydd, roedd popeth mor wahanol, ond mor ddiddorol ac aeth y mis heibio mor gyflym, ond nawr roedd amser i fynd 'nôl adre, roedd pawb yn crio, ac yn dweud wrthynt, “Bydd rhaid i chi ddod eto.”

Aeth Gareth i'r orsaf trên i weld am y trên 'nôl i'r maes awyr, roedd y fenyw yn y swyddfa yn siarad Saesneg perffaith, felly cafodd Gareth sgwrs dda gyda hi, dywedodd y fenyw roedd hwn yn gyfle da iddi hi ymarfer ei Saesneg, ond roedd hi'n ffeindio acen Gareth yn anodd i'w ddeall. Esboniodd Gareth mai Cymro oedd e ac ei fod e'n dod o dref fach yng nghymoedd De Cymru, felly roedd acen y cymoedd 'da fe! "O!" meddai'r fenyw, "Beth yw enw'r lle ?" "Pontllanfraith," atebodd Gareth. "Wel wel, am gyd-ddigwyddiad!", meddai'r fenyw, "Pwy fyddai'n meddwl y fath beth, Pontllanfraith! Priododd fy ffrind ddyn o Bontllanfraith. Fe wnaethant gwrdd tra roedd hi'n gweithio yng Nghaerdydd ac ar ôl blwyddyn priodon nhw, nawr mae nhw'n byw yng Nghoed Duon. Mae hi wedi byw yno nawr ers pedair blynedd, ac mae hi'n hoff iawn o'r lle. Mae hi'n dweud bod y bobl yno mor gyfeillgar. Dw i'n mynd i Brydain ar gwyliau gyda'm ffrindiau flwyddyn nesaf a dw i'n bwriadu ymweld â hi", meddai'r ferch. "Efallai bydda i'n eich gweld chi yno, pwy sy'n gwybod?"

"Nawr'te, beth am eich taith adre, s'dim rhaid i chi fynd i'r maes awyr i godi tocyn, dych chi'n gallu codi tocyn yn syth drwodd o fan yma i Bontllanfraith, pa orsaf dych chi moyn ym Mhontllanfraith, Uchaf neu Isaf?"

*Malcolm David*







Wrth yrru i fyny o gylchdro Pwllypant i fyny at gylchdro'r Hendre yng Nghaerffili mae rhyw artist cenedlaetholgar wedi bod yn ymarfer ei sgiliau paentio. Er gwaetha'r nam treiglo mae'n llwyddo i fynegi teimladau nifer ohonom drwy ddatgan "Nid fy Mhrenin" h.y. "Nid Fy Mrenin i".

Cwmni

## Cyfarfod Blynyddol Y Papur Bro

**Nos Fercher, 13eg o Fedi**

**7:00**

**Ysgol Gymraeg Caerffili**



# Y Galeri

Cardiau, lluniau, cerfluniau, cardiau cyfarch, cardiau post, ffotograffau a chelfyddyd gain

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

Mae'r Galeri dan y Caffi Vista ganol Caerffili

Kazev67@gmail.com

EISTEDDFOD CYMOEDD

## Eisteddfod y Cymoedd

**Nos Wener, Hydref 20fed**

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Y Gwyndy**

**@eistycymoedd**

# EISTEDDFOD y CYMOEDD 2023
## Rhestr Testunau

### Oedran Cynradd

1. Unawd Bl 2-4 - hunan-ddewisiad
2. Unawd bl 5-6 - hunan-ddewisiad
3. Llefaru bl 2-4 - hunan-ddewisiad
4. Llefaru bl 5-6 - hunan-ddewisiad
5. Llefaru i ddysgwyr bl 6 ac iau - hunan-ddewisiad
6. Unawd Offerynnol bl 6 ac Iau - hunan-ddewisiad

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

7. Parti neu Gôr Bl 6 ac Iau - hunan-ddewisiad

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd a dim mwy na 2 ddarn
Croesawir elfennau theatrig yn y perfformiad 1af - £150 + cwpan 2il - £100 3ydd - £50
Noddir y gystadleuaeth a'r tlws gan Gôr Cwm Ni er cof am Anne Evans.

8. Dawnsio Gwerin Unigol Bl 6 ac Iau - hunan-ddewisiad

Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 3 munud o hyd **

9. Dawnsio Grŵp Gwerin Bl 6 ac iau

Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**
Rhoddir gwobr o £30 am berfformiad mwyaf addawol unawd cynradd cyst. 1-6 a chystadleuaeth 8
Cyflwynir 'Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol.

### Oedran Uwchradd

10. Unawd Bl 7-9 - hunan-ddewisiad

Perfformir 1 darn yn unig

11. Unawd Bl 10-13 - hunan-ddewisiad

Perfformir 1 darn yn unig

12. Llefaru unigol Oedran Uwchradd - hunan-ddewisiad

Perfformir 1 darn yn unig

13. Llefaru Unigol i Ddysgwyr Uwchradd - hunan-ddewisiad

Perfformir 1 darn yn unig

14. Grŵp Llefaru i Ddysgwyr Uwchradd - hunan-ddewisiad

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

15. Côr / Parti bl 7-9 - hunan-ddewisiad

2 ddarn cyferbyniol yn unig 1af - £100 2il - £50 3ydd - £30

16. Côr / Parti bl 10 – 13 - hunan-ddewisiad

2 ddarn cyferbyniol yn unig 1af - £100 2il - £50 3ydd - £30

17. Dawnsio Gwerin Unigol Uwchradd - hunan-ddewisiad

Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 3 munud o hyd **

18. Dawnsio grŵp Gwerin Uwchradd

Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio

19. Unawd Offerynnol Uwchradd - hunan-ddewisiad

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd
Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oedran Uwchradd yng nghystadlaethau 10-13, ac 17 a chyflwynir 'Tlws Dawnsio trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol ym marn y beirniaid i gystadlaethau 10,11, 19, 20 a 31.

## Agored

20. Unawd Lleisiol Agored - hunan-ddewisiad
Perfformiad o 1 darn yn unig 1af - £50 2ail - £30 3ydd - £20
21. Unawd Canu Emyn - hunan-ddewisiad
Unrhyw emyn allan o Ganeuon Ffydd 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20
22. Unawd Sioe Gerdd Agored - hunan-ddewisiad. Darperir cyfeilydd swyddogol.
Perfformiad ddim yn hwy na 5 munud 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20
23. 2awd, 3awd / 4awd Agored - hunan-ddewisiad 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20
24. Parti neu Gôr Cerdd Dant - hunan-ddewisiad 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20
25. Parti / Côr Gwerin Agored - hunan-ddewisiad
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20
Nid oes hawl perfformio yr un darnau yng nghystadleuaeth 37
26. Grŵp Dawnsio Agored - hunan-ddewisiad
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 4 munud o hyd 1af - £100 2il - £50 3ydd - £25
27. Côr Agored - hunan-ddewisiad
Perfformiad ddim yn hwy na 8 munud
Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer. Cyflwyno 2 ddarn cyferbyniol ac i gynnwys 1 darn gan gyfansoddwr o Gymru.
Anelir i gynnal y gystadleuaeth yma am 9.30pm.
Noddir y gystadleuaeth yma gan C.Ô.R 1af - £300 + cwpan 2il - £200 3ydd - £100
36. Grŵp / Parti Llefaru Agored - hunan-ddewisiad 1af - £50 2il - £30 3ydd - £20

## Llenyddol

28. Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Oedran Cynradd Agored Gwobr - £25
29. Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Oedran Bl 7-9 Agored Gwobr - £25
30. Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Oedran Bl 10 – 13 Thema: Agored Gwobr - £25
Gall fod yn gerdd, ymson, stori ddychmygol neu yn rhan o ddyddiadur. Caniateir cyflwyno un darn o waith yn unig i'r gystadleuaeth yma.
31. Limrig i gynnwys y llinell 'Wrth wisgo'r crys coch ar eu cefnau' - £10 i'r buddugol
32. Cerdd heb fod dros 50 llinell ar y thema RHYDDID - £10 i'r buddugol
33. Englyn ar y thema 'Hapus' - £10 i'r buddugol

## Ffotograffiaeth

Agored i unrhyw oedran
34. Cyfres o luniau ar y thema 'Ein Planed' £15 i'r buddugol £10 i'r ail £5 i'r trydydd
35. Llun unigol ar y thema 'Hapus' £15 i'r buddugol £10 i'r ail £5 i'r trydydd

## Rheolau

1. Dyddiad Cau derbyn y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth yw Dydd Llun 10fed o Hydref.
2. Gellir danfon lluniau yn ddigidol neu wedi eu hargraffu.
3. Derbynnir y mathau canlynol o luniau - Jpeg / Tiff / PDF.
4. Wrth ddanfon y gweithiau at yr Eisteddfod, derbynnir y byddant o bosib yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Eisteddfod ac yn y Papur Bro lleol - 'Cwm*ni*'.
5. Gobeithiwn y bydd y lluniau a'r gwaith celf i'w gweld ar y noson yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws y Gwyndy.

Ffurflen Gystadlu / Cofrestru gan yr Ysgrifennydd:

31 Heol Cwarel Clark, Enau'r-glyn, Caerffili, CF83NE
**Ebost:** eisteddfodycymoedd@gmail.com

*Shwt ma'r ardd in edrych?*

# O mawredd!



Na, nid llun o jyngl trofannol sydd yma, na chwaith golygfa mewn gardd ecsotig sy'n arbenigo mewn llysiau a ffrwythau estron. Dyma, yn ei holl liwiau, yn ffrwythau a blodau hardd, mae rhan o un planhigyn mewn gardd gefn yng nghanol Ystrad Mynach - y cornel hwnnw o'r ardd a gysegrwyd i ddau blanhigyn corbwmpen (*courgette).* Ie, dau blanhigyn yn unig. Mae un ohonynt wedi cadw ei ffrwythau o fewn terfynnau rheswm (a'r gegin). Ond y llall ... "Mae fel jyst fel *courgette*, ond yn grwn" oedd perswad y gwerthwr ym marchnad Caerfyrddin yn y gwanwyn. Sylw camarweiniol: nid *cor*bwmpen mo hon, ond *cawr* bwmpen yn wir- ac, os sylwch chi, mae ganddi fabi wrth ei hochr. ..



Hoffwn ddatgan yn blwmp ac yn blaen taw gelyn yr ardd yw'r Eisteddfod Genedlaethol. Rwy'n hollol siwr taw hi yw cartref a noddfa iaith a diwylliant Cymru ac mae'n eu dathlu a'u hamddiffyn. Mae'r Eisteddfod gyfle unigryw i ymgolli am wythnos mewn Cymru Gymraeg go iawn, yn ei holl amrywiaeth a'i hwyl. Ac eleni cafodd groeso gwych ym Mro Boduan - ni all neb ofyn gwell. Ond ... tra oeddwn i yno yn ymdrochi yn y Pethe, yn cwrdd â hen ffrindiau a gwneud rhai newydd, yn gwario ar gynnyrch Cymru, yn rhyfeddu at ddoniau disglair y Cymry - roedd yr ardd fach yn Ystrad Mynach wedi ei hanghofio.



Er taw wythnos fer yw cyfnod yr Eisteddfod, mae gardd eisiau sylw dyddiol - ac mae'r corbwmpenni eisiau cael eu bwyta cyn iddynt dyfu'n angenfilod. Mae angen torri'r pys pêr yn gyson, rhag iddynt hadu a rhoi'r gorau i flodeuo. Credais fod pythefnos bach arall gen i i dynnu'r ffa bach olaf: camgymeriad! Diolch byth am y *geraniums* lliwgar a hael eu blodau sydd fel petaent yn tyfu'n well o gael eu hanghofio.



Ond ers yr Eisteddfod mae pythefnos o ofal (er mor ysbeidiol yw hynny) wedi gwneud gwahaniaeth. Mae blodau ar y pys pêr eto, a gobaith cael rhagor cyn diwedd Medi. Rwy wedi cael sawl pryd blasus o gorbwmpenni, ac wedi llwyddo i weithio'r ffa bach tila olaf mewn i gyri a risoto. Ond am y gawr bwmpen... rwy wedi ei gwylio'n tyfu a thyfu gyda pharchedig ofn! A hoffai rhywun caredig roi cartref iddi? Llysieuyn amddifad? Mewn gwlad estron? A gaiff hi ei awr hi ar lwyfan rywle, ryw ddydd, fel seren cwrdd diolchgarwch? Croesewir pob cynnig!


BRAGDY TWT LOL

www.twtlol.com



**Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg**

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol

TrefforestCF375YB

**Ar agor**

Dydd Gwener 12:00 – 18:00.

Dydd Iau 12:00 – 19:00

# Mwyara

Os bu'r haf yn siomedig, mae wedi darparu cynhaeaf ysblennydd o fwyar i ni. Mae'r mieri yn drwmlwythog,



a'r perthi i gyd yn borffor gyda mwyar mawr duon. Cyfle gwych i godi powlen a mynd allan i fwyara. Darllenais ysgrif "Y Lôn Glai" gan Angharad Price yn ddiweddar, a hoffais yn fawr ei disgrifiad o fwyara - "rhwygo'r daioni du oddi ar y cangau porffor".

Cyn i bobl ddysgu sut i ffermio - crefft gyntaf dynol ryw, cofiwch - byddant yn hela anifeiliaid ac yn casglu ffrwythau a hadau. Wrth i fi fwyara ar hyd lonydd Ystrad Mynach yn 2023, rwy'n dilyn arfer oesol, er yr holl newid a fu ar y byd o'n cwmpas.



Bu'n rhagflaenwyr yn y cwm hwn yn mwynhau blas y mwyar melys yn eu tymor - a bydden nhw hefyd yn cael eu crafu gan y drain sydd yn eu hamddiffyn. Byddant yn bwyta mwyar crai yn y dyddiau cyntaf oll, ond rwy'n siŵr, unwaith iddynt feistroli tân, y byddant wedi coginio'r mwyar, gan eu melysu gyda mêl... wel, dyna'r syniadau sy'n llenwi fy mhen wrth i fi fwyara! Blasu'r union un blas bendigedig y bu pobl yn mwynhau yma, yn ein bro ni, yr union adeg hon o flwyddyn a hynny am filoedd ar filoedd o flynyddoedd.



Ond nid wyf yn gweld cynifer yn mwyara bellach, a chredaf fod llai a llai o bobl yn manteisio ar roddion rhad y ddaear yn gyffredinol. Cefais dipyn o ysgytwad wrth siarad gyda chymdogion am y llwyth o fwyar sydd i'w gweld ar hyd ein lôn gefn. Nid ydynt yn bwriadu eu casglu, meddent, oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud â nhw. "Wel, eu bwyta!" oedd yr ateb parod, ond fe ddaeth yn amlwg eu bod yn amau unrhyw fwyd sydd heb ei brynu o'r siop. Rwy wedi gwneud tarten fwyar iddynt, wrth gwrs - gan sylweddoli hefyd ei fod yn bur annhebyg bod unrhyw un yn y tŷ yn gwybod sut i wneud crwstyn...

A phenderfynais arbrofi gyda Dinca Mwyar hefyd - a dyma'r rysáit. Mae hon yn haws o lawer na gwneud crwstyn ar gyfer tarten ond yr un yw'r cynhwysion!



Rhowch 280g o flawd hunangodi mewn powlen fawr, a rhwbiwch 140g o fenyn neu farjarín mewn iddo, nes iddo edrych fel tywod. Yna ychwanegwch 140g o siwgr coch (*demerara*) iddo, a chymysgwch y cyfan yn dda. Yn olaf, ychwanegwch 450g o fwyar ffres- a chymysgwch y cyfan yn dda eto. Cewch ychwanegu diferyn o laeth i'r cymysgedd hefyd, ond cofiwch fydd y ffrwythau'n ildio'u sudd wrth i'r deisen bobi, felly ni ddylai fod yn rhy wlyb.

Irwch dun bas rhyw 20cm x 28cm yn dda, arllwyswch yn gymysgedd iddo a'i wasgu lawr. Rwy'n arfer taenu llond llwy bwrdd  o siwgr coch drosto hefyd. Rhowch y dinca mewn ffwrn gweddol o dwym (Nwy 5/180C) am ryw hanner awr, nes ei fod wedi euro.

Ac os nag yw'n edrych yn iawn - wel, gweinwch y cyfan fel crymbl!

# Colofn Dafydd Islwyn

Yn ddiweddar dysgais i'r bardd J. R. Jones, Talybont, ardal Aberystwyth, gael ei eni yn 1923. Rhestrir ef ymhlith eisteddfodwyr amlycaf Cymru. Nid yn unig yr oedd yn fardd Cadeiriol a Choronog, roedd yn adroddwr cydnabyddedig hefyd. Ef enillodd y prif adroddiad yn y Genedlaethol, Glyn Ebwy, 1958, bum mlynedd cyn sefydlu Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn. Eisteddfod y Jonesiaid o Geredigion oedd honno. Llywelyn Jones, Llanbadarn Fawr, yn ennill y Goron, J.R. y Prif Adroddiad a T. Llew Jones, Coed y Bryn, y Gadair ond brodor o Bentre Cwrt, Sir Gaerfyrddin, oedd ef! Nid dyma unig gysylltiad J.R. â'r Genedlaethol yn y Cymoedd. Yng Nghaerffili 1950 urddwyd ef yn Ofydd, y wisg werdd yng Ngorsedd y Beirdd bryd hynny. "Bum yn weddol ffyddlon i'r seremonïau, ond ar ôl cyfarch Bardd y Goron yng Nghwm Rhymni 1990, teimlwn y gwres ar y llwyfan yn llethol," meddai yn ei gyfrol olaf 'Atgof a Cherdd' - ysgrifennodd hi yn ystod misoedd olaf ei fywyd yn 2003.

Yng Nghystadleuaeth y Goron yn y Genedlaethol 1989 yn Llanrwst gosodwyd ei ddilyniant o gerddi, "Arwyr", ymysg y tri dilyniant gorau. Ei gerdd 'Dixie Dean' (1907-80), am *centre forward* tîm Everton o 1924 i 1937, y gorau i wisgo crys glas Rhif 9 y clwb, yn apelio. Y pennill olaf yn brofiad cyffredinol i blant yr ysgol:

Blynyddoedd y breuddwydion brau
a'r codi cestyll mewn awyr â chwilfrydedd
yn y dyddiau
pan oedd cardiau sigaréts yn farchnad ar yr iard.

Pan oedd J.R. tua thair blwydd oed, derbyniodd y Parchedig Fred Jones (1877-1948) Bethania (A), Treorci, alwad i weinidogaeth yn Nhalybont, Ceredigion. Bu yno tan ei farwolaeth ar yr 2ail o Ragfyr 1948. Bu'n ddylanwad ysbrydol a diwylliedig ar J.R. Cofiodd yn ei gyfrol olaf , "roeddem fel teulu yn aelodau ym Methel a Fred Jones (taid Dafydd Iwan) oedd y gweinidog a'n derbyniodd innau. Byddwn yn galw draw ambell i noson i ddarllen Y Faner a chylchgronau eraill iddo, a difyr fyddai gwrando ar ei atgofion mebyd yn y Cilie. Teimlwn fy mod yn hen adnabod ei frodyr cyn cyfarfod yr un ohonynt."

Yn ei gyfrol gyntaf, 'Rhwng Cyrn yr Aradr' (1962), ceir pum englyn coffa i'w hen weinidog gan J.R. Dyma'r ail englyn:

Gŵr meddylgar, ei gariad –diwyrni
Dros Deyrnas ei Geidwad;
A mawredd ei gymeriad,
Wron glew, yn darian gwlad.



Wrth gofio am y Parchedig Fred Jones mae nifer o ffeithiau'n dod i'r wyneb. Dechreuodd ef ar ei yrfa fel Gweinidog yr Efengyl yn Moreia (A), Rhymni. Bu ef yno o Orffennaf 1906 tan ganol Chwefror 1917. Y flwyddyn honno derbyniodd alwad i Fethania (A), Treorci. Yn y Mans, Moreia, Rhymni, y ganwyd Y Parchedig Gerallt Jones ar yr 22ain o Orffennaf 1907, ef yn dad i Dafydd Iwan. Roedd y Parchedig Fred Jones yn un o chwe chenedlaetholwr a sefydlodd Plaid Cymru ar y 5ed o Awst 1925 ym Mhwllheli. Yn Rhagfyr 1928 enillodd ef sedd ar Gyngor Sir Aberteifi, yr aelod cyntaf o Blaid Cymru i wneud hynny.


Ffaith y mae'n rhaid i ni ei chofio am y Parchedig Fred Jones ydy iddo golli ei olwg tua'r un cyfnod ag yr aeth i Dalybont. Bu ei deulu a'i gyfeillion yn gymorth mawr iddo fel y tystiodd J.R.Jones. Ymwelodd ei frawd, y Parchedig S.B.Jones (1894-1964), Peniel, Caerfyrddin, ag ef yn yr ysbyty yn Aberystwyth yn ystod ei waeledd olaf. "Seimon, ai ti sydd yma?", cyfarchodd Fred Jones ef. Mae'n siŵr mai'r ymweliad hwnnw a ysbrydolodd S.B. i gyfansoddi ei emyn gorau, 'Llifa ataf fôr tragwyddol", emyn 186 Caneuon Ffydd.

Un o'r englynion olaf a weithiodd y Parchedig Fred Jones oedd 'Yr Hirlwm', testun yr englyn yn y Genedlaethol, Dolgellau 1949. A dyma'r englyn:

O tan ddant gwywiant gaeaf - aeth toreth
Tiroedd y Cynhaeaf,
Hin oer y Gwanwyn araf
A gwewyr hir esgor Haf.

Ni chrybwyllir yr englyn ym meirniadaeth Edgar Phillips, y Prifardd Trefin, Y Coed Duon. Enillwyd y gystadleuaeth gan Alun Cilie (1897-1975), brawd ieuengaf Fred Jones.

Alun Cilie oedd y cyntaf o feirdd y Cilie i ennill ar yr englyn yn y Genedlaethol. Dilynwyd ef gan T. Llew Jones yn 1950, ef wedi priodi nith y Parchedig Fred Jones; Jac Alun Jones yn 1959, 69 a 76, nai iddo, a'r Parchedig Gerallt Jones (1970), ei fab.



# Ein Hanes *Ni* - 11

## William Edwards

### "Tri Chynnig i Gymro"

Mae William Edwards yn enwog fel yr un a adeiladodd bont enwog Pontypridd, un o ryfeddodau'r byd yn ei dydd am fod ei rhychwant dros afon Taf yn fwy nag unrhyw bont arall ar y pryd. Ond ni yng Nghwm Rhymni piau'r gŵr yma am mai yma cafodd ei eni ac yma y bu'n weinidog yr efengyl.

Cwblhawyd y bont ym Mhontypridd, yn y diwedd, yn 1756. Cafwyd yr arian wrth i Lys Sirol Morgannwg godi £500 oddi wrth ffermwyr a thirfeddianwyr oedd yn byw yng Nghantref Senghenydd (rhwng y Taf a'r Rhymni) a Chantref Meisgyn, i'r dwyrain o afon Taf).

I ddechrau cododd bont ag iddi dri bwa. Ond y gaeaf cyntaf cafwyd llifogydd anarferol o ffyrnig a lusgodd goed i lawr yn llif yr afon. Wrth i'r coed hyn fethu mynd o dan y bont roeddent yn ffurfio cronfa a phwysedd cynyddol y dŵr yn dymchwel y bont. Doedd dim byd amdani wedyn ond codi pont un bwa fel y gallai popeth lifo'n hwylus o tani. Gwnaeth hyn yn ddigon llwyddiannus ond, yn anffodus, profodd yr ochrau yn rhy drwm gan wasgu ar y canol, a dymchwel gwnaeth yr ail bont hefyd.

Nid un i roi'r ffidil yn y to mo William Edwards a dyma pryd y lluniodd dri thwll ar y naill ochr a'r llall. Cred llawer mai er mwyn caniatáu i'r dŵr lifo drwodd oedd hyn. Ond dyw llif yr afon byth yn cyrraedd mor uchel â'r tyllau! Nage, nid er mwyn gadael y dŵr i lifo y crëwyd y rhain ond er mwyn gwneud y bwtresi'n ysgafnach a dywedwyd i hyn leihau'r pwysau'r bont, o ryw gan dunnell ac mae'r tyllau silindraidd hyn â diamedr o dair, chwech a naw troedfedd. Y trydydd cais, felly, fu'n llwyddiannus.

Yn wir ni allai fforddio rhoi'r ffidil yn y to am na fyddai'n cael ei dalu am ei waith hyd nes iddo lwyddo. Roedd William Edwards wedi derbyn £500 gan Lys Sirol Morgannwg i adeiladu'r bont ond ar yr amod fod hon yn sefyll am o leiaf saith mlynedd. Awgrymir fod awdurdodau eraill wedi talu mwy na ddylent i Edwards am ei waith er mwyn iddo gael y modd i ariannu prosiect Pontypridd, er enghraifft pont Brynbuga (Usk).

Roedd e'n ŵr cefnog ond, er hynny, mynnai dderbyn cyflog am fod yn weinidog yn y Groes-wen am y teimlai na ddylai'r aelodau goleddu'r syniad fod gweinidog yn rhywun oedd ar gael yn rhad ac am ddim. Yna rhoddai yntau'r cyflog hwnnw tuag at achosion teyrngarol. Ceir cofeb hardd iddo yny Groes-wen ond fe newidiodd yr aelodau enw ei fferm ar gyfer o gofeb o Bryn Tail i Bryn Haul - enw llawer iawn mwy parchus!

Dywedwyd iddo ddysgu'i grefft drwy adeiladu a chywiro waliau ac adeiladu ysguboriau yn ardal Eglwys Ilan. Ond mae'n hysbys iddo hefyd fod yn gysylltiedig â phont Beaufort yn Nhreforys a phont Pontardawe. Clywodd Catrin Fawr (Catherine the Great) am ei orchestion a cheisiodd ei berswadio i ddod draw i Rwsia fel rhan o'i hymgyrch hithau i foderneiddio'r wlad. Gwnaed lluniau di-ben-draw o'r bont ym Mhontypridd gan gynnwys rhai gan arlunwyr mor enwog â J.M.W. Turner a'r Cymro Richard Wilson, tad paentwyr tirluniau.

Ond roedd llawer iawn mwy nag adeiladu ar feddwl William Edwards. Roedd yn ddyn mawr am y pethau ysbrydol ac fe arweiniodd gynulleidfa allan o eglwys Loegr er mwyn sefydlu achos y Methodistiaid Calfinaidd yn y Watford cyn i honno a'r capel yn y Groes-wen ddod yn gapeli'r Annibynwyr.

Fe'i claddwyd yn Eglwys Ilan am nad oedd mynwent gan yr anghydffurfwyr bryd hynny. Teimlwyd i berson y plwyf wneud yn fach o ddyn gwirioneddol fawr. Fel canlyniad fe benderfynodd yr Annibynwyr brynu'r cae y tu ôl i gapel y Groes-wen i sefydlu mynwent un, ym mhen y rhawg, a ddaeth yn enwog fel "The Westminster Abbey of Wales" am fod cymaint o bobol adnabyddus wedi'u claddu yno.

Comisiynodd gor-ŵyr William Edwards, Dr W.T.Edwards, Sir William Goscombe John, R.A. i wneud tabled efydd o'i dad-cu. Dadorchuddiwyd hwn yn 1906 y tu ôl i'r pulpud yn y Groeswen â'r geiriau,

"Adeiladydd mewn dau fyd."


TAITH SIOPA NADOLIG
I FFAIR BIRMINGHAM
TACHWEDD 18
CASGLU/PICK-UP:
8AM -GORSAF BWS CAERFFILI BUS STATION
8.15 - TESCO YSTRAD MYNACH
GADAEL/LEAVE @ 6:00PM
£12
I archebu sedd/ To book a seat
www.mentercaerffili.cymru
Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968


Menter Iaith Sir Caerffili
GWEITHGAREDDAU I OEDOLION
@CANOLFAN Y GLOWYR CAERFFILI
MEDI 18 + 25
CREFFT
6:30 - 8:30 PM £15
HYD 2 + 9
COGINIO
6:30 - 8:30 PM £15
HYD 16 + 23
CREFFT
6:30 - 8:30 PM £15
TACH 6 + 13
COGINIO
6:30 - 8:30 PM £15
I ARCHEBU LLE
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU


Menter Iaith Sir Caerffili
CLWB CERDDED
10:00 - 12:00
Awst 30 2023
Llwybrau'r Fan Vann Road Trails - cwrdd yn y maes parcio isaf/
CF83 3DB
Medi 6 2023
Castell Ruperra Castle - cwrdd ger tafarn Yr Hollybush, Draethen
NP10 8GB
Medi 13 2023
Mynydd y Grug - Cwrdd ym Maes parico gorlif Bryn Meadows
NP12 2RB
Medi 20 2023
Parc Penallta- Cwrdd yn maes parcio Gorsaf Dren Hengoed
- CF82 7RA
Medi 27 2023
Coetir Bargod - Cwrdd yn maes Parcio Swyddfa Menter Caerffili
CF819FW
*Cyfarfod trefnu teithiau nesaf ar y diwedd*
Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas
Mwynhau'r Gymraeg
lowrijones@mentercaerffili.cymru
01443 820913
Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968


PotterRhi
Crochenwaith gan
Rhiannon Stanford-Williams
Dilynwch fi
@PotterRhi